

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - trawsgrifiad

Cyfwelydd: A allwn ni ddechrau trwy sôn am eich teulu gartref yn yr Almaen?

IH: Roedd fy nhad yn gyfreithiwr ac roedden ni'n byw mewn rhan neis iawn o Nuremberg o'r enw'r Luitpoldhein. A chawsom fywyd pleserus iawn hyd at amser Hitler. Es i i'r ysgol yn yr ysgol wladwriaeth arferol. A phan oedden ni - pan oeddwn i'n 11 oed, fe wnaethon ni sefyll rhyw fath o arholiad a mynd i'r Fürth Realschule.

Cyfwelydd: Beth yw hwnna?

IH: Ysgol ramadeg, ysgol ramadeg Iddewig yn Fürth.

[...]

IH: Roedd fy mam yn diddanu llawer. Roedd hi'n chwarae tennis. Byddwn i'n gweld fy nhad, ar y penwythnos yn bennaf, ond gyda'r nos, weithiau byddai'n dod â gwaith adref ac roedd yn ymddangos eu bod yn byw bywyd cyfforddus iawn. Cefais amser hyfryd. Cefais blentyndod bendigedig.

Cyfwelydd: Sut le oedd eich tŷ chi? Allwch chi ei ddisgrifio?

IH: Roedd gennym ni fflat: roedd yno, roedd yno ystafell fwyta; roedd yno lolfa; roedd yno un, dwy, dwy, tair ystafell wely, ac yna roedd llety bach i'r, i'r forwyn.

[...]

IH: Wel, bydden nin mynd ar wyliau gyda'n gilydd fel teulu. Bydden ni'n mynd allan ar y penwythnos fel teulu: Roedd ganddyn nhw gar bach. Bydden ni'n arfer mynd allan hyd yn oed ar ôl, chi'n gwybod, pan fydden ni ddim yn gallu mynd i fwytai ac ati mwyach. Roedden ni'n arfer cael picnic yn y wlad.

Cyfwelydd: I ba fath o lefydd fydddech chi'n mynd ar wyliau?

IH: I'r Swistir yn bennaf. Yn bennaf i'r Swistir. Ie.

Cyfwelydd: A beth fydddech chi'n ei wneud yno?

IH: Nofio, cerdded, aros mewn gwesty a chi'n gwybod y pethau arferol.

Cyfwelydd: Allwch chi ddweud mwy wrthyf am eich rhieni? Pa fath o bobl oedden nhw?

IH: Yn anffodus, dim llawer. Pan fyddwch chi'n dweud, 'pa fath o bobl oedden nhw?' Fy mam, mae'n fynegiant Almaeneg '*ein gutmütig's Mockele*'. Mae'n golygu ei bod hi'n berson cariadus iawn, yn hael iawn, yn berson addfwyn iawn. Ac roedd hi'n arfer gwneud jam gwins, a dwi'n dal i wneud heddiw achos mae coeden gwins gyda ni yn yr ardd. Ac roedd hi'n arfer ei roi i'r plant i gyd ac roedd hi'n arfer casglu'r holl blant tlawd a dod â nhw i mewn a'u bwydo. Roedd hi'n berson caredig iawn.



Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - trawsgrifiad

IH: Roeddwn i'n gyfeillgar iawn, iawn, rydych chi'n ei weld yn y llun, gyda merch o'r Almaen a oedd yn byw rownd y gornel oddi wrthym ni. Wyddwn i ddim ar y pryd fod ei thad yn filwr yn yr *Obersturm*¹ yn yr SS ac roedden ni'n ffrindiau mawr, roedden ni'n arfer chwarae gyda'n gilydd. Un diwrnod daeth y fam ataf a dywedodd, "Rydych yn gwybod bod yn ddrwg iawn gennyf, chi'ch dwy, ond bydd yn rhaid i'ch cyfeillgarwch ddod i ben. Os..."—Ni allaf gofio beth, beth oedd enw'r ferch—"Os bydd ei thad yn darganfod, bydd yn ei lladd."

Cyfwelydd: Daeth y fam atoch chi?

IH: Do. Tra oedden ni'n chwarae.

Cyfwelydd: Faint oedd eich oed chi bryd hynny?

IH: Wel, mae'n rhaid fy mod i—roedd hynny yn yr ail—felly mae'n rhaid bod hynny pan oeddwn i yn yr ysgol uwch, yn y rhan hynaf o'r ysgol. Mae'n rhaid fy mod i tua deg oed, rhywbeth felly.

Cyfwelydd: Beth wnaethoch chi o hynny?

IH: Wel, daeth ein cyfeillgarwch i ben, wyddoch chi. Hynny yw, doeddwn i ddim yn mynd i fentro iddi fynd i drafferth gyda'i thad.

[...]

Cyfwelydd: Gan fynd yn ôl i'ch bywyd cartref, beth Iddewig fyddai'n digwydd yn eich cartref?

IH: Ychydig iawn. Bydden ni'n mynd i'r synagog unwaith y flwyddyn.

Cyfwelydd: Pa synagog oedd honno?

IH: Y prif synagog yn Nuremberg.

Cyfwelydd: Fyddech chi'n dathlu unrhyw wyliau gartref?

IH: Dydw i ddim yn meddwl, na.

¹ Mae Inge yn petruso wrth ddweud y rheng. O fewn yr SS, roedd dwy reng, y gallai hi fod wedi eu hystyried: *SS Obersturmführer*, y gellid ei gyfieithu fel Is-gapten, a *SS Oberturbannführer*, a gyfieithir fel Is-gymol.